# Lefel 1/Lefel 2 TAAU Amgylchedd Adeiledig

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel 1/Lefel 2 TAAU Amgylchedd Adeiledig |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno gwybodaeth a sgiliau ymarferol sector-benodol i ddysgwyr sy'n eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu brentisiaethau, wrth feithrin datblygiad personol ac ymgysylltu trwy ddysgu cymhwysol. |
| Cod Cymhwyster CBAC | 5939CA |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14–16, 16–19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cymwysterau TAAU a gymeradwywyd i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi’u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw’r unig gorff dyfarnu sy’n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o’r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae’n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Deniadol, ymarferol, ac wedi'u hadeiladu ar gyfer cynnydd

Mae ein cymwysterau Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr 14-16 oed, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a chyflawni llwyddiant ystyrlon.

Mae cymwysterau TAAU yn unedol, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd cyson, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw’n ei gyflawni drwy gydol y cwrs. Ar gyfer ein cymwysterau TAAU, mae asesiadau allanol wedi'u cynllunio er mwyn asesu gwybodaeth sylfaenol a gellir eu cwblhau tua dechrau'r cwrs, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lefel uwch. Mae'r strwythur hwn yn ychwanegu trylwyredd a hygrededd i'r cymhwyster tra’n helpu i leihau llwyth gwaith athrawon.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein cymwysterau TAAU yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Gall cyflawniad uchel mewn un maes wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan hyrwyddo profiad asesu mwy cynhwysol a chefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae cymwysterau TAAU CBAC yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach ar Lefelau 1 i 3. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys


Crynodeb o'r asesu ..... 5

1 Cyflwyniad ..... 6

1.1. Pwrpas a nodau ..... 6

1.2. Cwricwlwm i Gymru ..... 7

1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 7

1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) ..... 8

1.5. Y defnydd o iaith ..... 8

1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 9

2.Unedau ..... 10

2.1 Fformat yr unedau ..... 10

2.2 Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 10

2.3 Cynnwys ..... 12

Uned 1 Cyflwyniad i'r Sector Amgylchedd Adeiledig ..... 13

Uned 2 Ffocws ar yr Amgylchedd Adeiledig ..... 23

Uned 3 Datblygu a Dangos Sgiliau ..... 29

3. Asesu ..... 43

3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau ..... 43

3.2. Trosolwg o'r Asesu ..... 44

3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad ..... 45

3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad ..... 46

3.5 Camymddwyn ..... 47

4.Gwybodaeth Dechnegol ..... 48

4.1. Cofrestriadau unedau ..... 48

4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ..... 48

4.3. Graddio ac adrodd yn ôl ..... 49

4.4. Ailsefyll asesiadau ..... 49

4.5. Ailwneud y cymhwyster ..... 50

Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 51


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i'r Sector Amgylchedd Adeiledig<br>Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur neu ar sgrin<br>Cwestiynau dewis lluosog, prawf gwrthrychol ac atebion byr, rhai ohonyn nhw'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| Uned 2: Ffocws ar yr Amgylchedd Adeiledig<br>Asesiad di-arholiad: 6 awr 30 munud<br>20% o'r cymhwyster<br>50 marc |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau sy'n seiliedig ar astudiaeth achos y bydd CBAC yn ei gosod bob blwyddyn.<br>Bydd yr asesiad ar gael drwy'r Porth. |
| Uned 3: Datblygu a Dangos Sgiliau<br>Asesiad di-arholiad: 14 awr<br>60% o'r cymhwyster<br>90 marc |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau sy'n seiliedig ar friff yr aseiniad.<br>Bydd yr asesiad ar gael drwy'r Porth a bydd yn aros yn sefydlog am oes y fanyleb. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r ddwy uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2028 ac yna byddant ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd Uned 3 ar gael am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2029 ac yna bydd ar gael yng nghyfres yr haf ac yng nghyfres mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU) CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Maent yn cynnig cynnwys ac asesu deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae cymwysterau TAAU yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf, boed hynny mewn addysg, hyfforddiant, neu fyd gwaith.

Mae TAAU CBAC yn:

- darparu sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys astudiaeth alwedigaethol ar Lefel 1 i 3 fel y bo'n briodol
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, gyda phwyslais ar sgiliau ymarferol
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu mewn ffyrdd perthnasol, deniadol ac ystyrlon, gan ddefnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol
- darparu cyfleoedd, lle y bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu:
  - sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
  - y sgiliau cyfannol a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru
  - dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn y byd gwaith
- darparu cyfleoedd, lle y bo’n briodol, i ddysgwyr ymgysylltu ag agweddau perthnasol ar themâu trawsgwricwlaidd:
- cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- amrywiaeth
- hawliau dynol
- addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)
- gydnaws â Lefelau 1 a 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

Nod TAAU Amgylchedd Adeiledig CBAC yw:

- datblygu sgiliau ymarferol dysgwyr mewn perthynas â thasgau adeiladu sy'n briodol i'w hoedran yn ddiogel ac yn effeithiol
- ymgorffori gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol hanfodol o gylchred oes yr amgylchedd adeiledig, gwahanol brosesau a natur benodol yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru
- hybu dealltwriaeth o'r sector amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwahanol grefftau, rolau a chyfrifoldebau swydd a dilyniant gyrfa
- gwella galluoedd datrys problemau a chynllunio trwy ymgysylltu â phrojectau amgylchedd adeiledig
- meithrin sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy megis cyfathrebu, rheoli amser, cynllunio a gwerthuso

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

- paratoi dysgwyr ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau pellach, prentisiaethau neu gyflogaeth yn y sector amgylchedd adeiledig.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TAAU hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r dyluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd , ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 36; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TAAU Amgylchedd Adeiledig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Gwyddoniaeth a Thechnoleg[1] gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i wyddoniaeth a thechnoleg, a'u cymhwysiad mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
  - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae'r amgylchedd adeiledig yn eu hardal ac mewn mannau eraill yng Nghymru wedi'i gynllunio, ei adeiladu ac yn gallu newid
  - datblygu sgiliau meddwl dylunio a gwybodaeth dechnegol i helpu i fodloni anghenion a dymuniadau cymdeithas.

- cefnogi egwyddorion cynnydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg[2] drwy annog dysgwyr i wneud y canlynol:
  - datrys problemau a deall y gall dylunio fod yn iterus
  - datblygu gwydnwch a mwy o annibyniaeth
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
  - mireinio cymhwyso'u sgiliau trwy archwilio a dadansoddi
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed. Efallai y bydd dysgwyr wedi cwblhau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith (WRFQ) yn y pwnc cyn dechrau'r cwrs hwn, a all gefnogi eu parodrwydd a'u dilyniant ymhellach.

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/egwyddorion-cynnydd/

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'n darparu sail addas ar gyfer dilyniant i astudio ymhellach ar Lefelau 2 a 3 megis cymwysterau Lefel 2 Craidd, Sylfaen a Dilyniant mewn Adeiladu a phrentisiaethau crefft ar Lefel 3. Yn ogystal, mae'r cymhwyster yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Lluniwyd TAAU Amgylchedd Adeiledig i'w chyflwyno dros gyfnod o 120–140 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o'r ganran ddisgwyliedig o ODA y gallai fod ei hangen ar gyfer pob uned.

| | Pwysoliad | ODA |
|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 24 awr |
| Uned 2 | 20% | 24 awr |
| Uned 3 | 60% | 72 awr |
| **Cyfansymiau** | **100%** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Cyfanswm Amser Cymhwyso'r cymhwyster hwn yw rhwng 140 a 160 awr. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhwng 120 a 140 awr o ODA a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 20 awr o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd terminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy’r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector amgylchedd adeiledig. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2.Unedau

## 2.1 Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio o dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | Mae'n nodi'r cyfraniad y mae'r uned hon yn ei wneud at radd gyffredinol y cymhwyster. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth allweddol a gwmpesir, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Testunau | Mae'n rhestru'r testunau y bydd dysgwyr yn eu hastudio fel rhan o'r uned. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dulliau asesu ar gyfer yr uned. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Manylion y deunyddiau, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio sydd eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill a gynigir gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr i fodloni'r meini prawf asesu. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu trwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau addysgu.<br>Ni fydd asesu uniongyrchol o'r profiadau. |

## 2.2 Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn i ddangos dyfnder disgwyliedig y dysgu.

Mae ‘Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o’ yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen ar ddysgwyr ymwybyddiaeth gyffredinol yn unig o'r cynnwys dan sylw, heb ddealltwriaeth fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at ddogfennau Canllawiau Addysgu am ganllawiau manylach ar ddyfnder a chwmpas.

Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r cynnwys.

Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn nodi y dylai dysgwyr ddangos mwy o ddyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys y gallu i gymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd, neu ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol neu ddangos cymhwyso sgiliau ymarferol a thechnegau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.3 Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob testun, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 1 Cyflwyniad i'r Sector Amgylchedd Adeiledig

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r sector amgylchedd adeiledig yn fawr ac yn amrywiol, ac mae'r uned hon yn ymwneud â deall y sector fel bod gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol briodol.<br><br>Mae'n cwmpasu amrediad eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys pensaernïaeth, adeiladu, peirianneg a chynllunio trefol sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i siapio'r mannau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn rhyngweithio.<br><br>Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r sector, ei gwmpas a'i brif weithgareddau, ystyriaethau a phrosesau. Pwrpas yr uned hon yw archwilio:<br><br>• maint ac amrywiaeth y sector<br>• arferion perthnasol y diwydiant<br>• meysydd allweddol o fewn y sector sy'n hanfodol ar gyfer projectau adeiladu<br>• rolau swydd pwysig a chyfleoedd gwaith.<br><br>Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon wedi'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach, gyda sylfaen gadarn mewn gwybodaeth am y diwydiant, ymwybyddiaeth ymarferol, a sgiliau at y dyfodol. |
| Testunau | 1.1 Deall y sector<br>1.2 Cylchred oes yr Amgylchedd Adeiledig<br>1.3 Crefftau a chyflogaeth |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad allanol (prawf sector): 1 awr<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>Ar gael mewn dau fformat: ar bapur neu ar sgrin<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Ar bapur: Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesu.<br>Digidol: bydd angen dyfais ar ymgeiswyr sy'n bodloni neu'n rhagori ar y gofynion sylfaenol. Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno arholiadau ar-sgrin, gan gynnwys y gofynion sylfaenol, ar gael ar dudalen we e-Asesu CBAC. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br>Sgiliau Bywyd: Rheoli a Chynnal a Chadw Cartref<br>Sgiliau Bywyd: Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn Bywyd Bob Dydd<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

**1.1 Deall y sector**

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
1.1.1 Trosolwg o'r sector
1.1.2 Adeiladau, creu parthau a defnydd tir
1.1.3 Isadeiledd
1.1.4 Cyfleustodau a gwasanaethau
1.1.5 Ystyriaethau amgylcheddol

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.1.1<br>Trosolwg o'r sector | Dylai dysgwyr wybod sut mae'r amgylchedd adeiledig yn cael ei ddiffinio, gan gynnwys yr elfennau gwahanol hyn:<br><br>• adeiladu ac adeileddau<br>• isadeiledd<br>• cyfleustodau a gwasanaethau<br>• ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd. |
| 1.1.2<br>Adeiladau, creu parthau a defnydd tir | Dylai dysgwyr wybod am wahanol fathau o adeiladau gan gynnwys:<br><br>• adeiladau preswyl:<br>    • blociau fflatiau<br>    • tai sengl<br>    • tai pâr<br>    • tai teras<br>• adeiladau dibreswyl:<br>    • adeiladau amaethyddol: ysguboriau, ffermydd<br>    • adeiladau masnachol: canolfannau siopa, swyddfeydd, siopau<br>    • adeiladau cymunedol: adeiladau dinesig, ysbytai, llyfrgelloedd, ysgolion<br>    • adeiladau diwydiannol: ffatrïoedd, warysau<br>    • adeiladau hamdden: sinemâu, canolfannau hamdden, stadiymau<br>    • adeiladau crefyddol: capeli, eglwysi, gurdwaras, mosgiau, synagogau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall syniad a phwrpas creu parthau tir a chynllunio defnydd tir gan gynnwys:<br><br>• parthau preswyl<br>• parthau masnachol a diwydiannol<br>• datblygiadau defnydd cymysg.<br><br>Dylai dysgwyr wybod elfennau a darnau cydrannol adeiladau:<br><br>• tanadeiledd:<br>    • sylfeini<br>    • isloriau<br>    • llawr gwaelod |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • waliau cynnal<br>• aradeiledd:<br>  • ffabrig adeiladu/ffrâm adeileddol<br>  • waliau<br>  • cladin waliau<br>  • adeiledd to<br>  • gorffeniadau to<br>• y gwahanol gategorïau canlynol o waith adeiladu ar adeilad:<br>  • estyniad i adeilad<br>  • trawsnewidiad<br>  • cynnal a chadw<br>  • adeilad newydd<br>  • ailwampio/adnewyddu<br>  • gwaith adfer/gwaith treftadaeth<br>  • ôl-osod. |
| 1.1.3<br>Isadeiledd | Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y term isadeiledd.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r isadeiledd canlynol:<br><br>• pontydd a thwneli<br>• rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan<br>• rhwydweithiau egni: trydan, nwy<br>• cyfleusterau parcio<br>• mannau cyhoeddus: parciau, meysydd chwarae, plazas, sgwariau<br>• trafnidiaeth: ffyrdd, priffyrdd, traffyrdd<br>• systemau tramwyo: meysydd awyr, lonydd beiciau, bysiau, metros, llwybrau cerddwyr, rheilffyrdd, porthladdoedd, tramiau<br>• systemau telathrebu<br>• cyflenwad dŵr a systemau carthffosiaeth. |
| 1.1.4<br>Cyfleustodau a gwasanaethau | Dylai dysgwyr wybod:<br><br>• ystyr y term cyfleustodau a gwasanaethau a'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw<br>• swyddogaeth y cyfleustodau a gwasanaethau adeiladau canlynol:<br>  • trydan<br>  • nwy<br>  • gwresogi ac awyru<br>  • mecanyddol<br>  • plymio<br>  • rhyngrwyd a thelathrebu<br>  • rheoli gwastraff<br>  • dŵr. |
| 1.1.5<br>Ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd | Dylai dysgwyr ddeall y materion amgylcheddol a chynaliadwyedd trawsbynciol canlynol:<br><br>• effeithiau cadarnhaol a negyddol ar fioamrywiaeth<br>• ffyrdd o leihau allyriadau carbon<br>• dulliau gwella gwydnwch hinsawdd |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • ffyrdd o atal disbyddu adnoddau megis effeithlonrwydd egni, gwarchod cynefinoedd, cadwraeth dŵr. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="2">1.2 Cylchred oes yr amgylchedd adeiledig</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1 Pwysigrwydd cylchred oes yr amgylchedd adeiledig<br>1.2.2 Ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff<br>1.2.3 Cynllunio a dichonoldeb, dylunio<br>1.2.4 Adeiladu<br>1.2.5 Prosesau trosglwyddo, defnydd gweithredol a chynnal a chadw<br>1.2.6 Ailwampio ac adnewyddu<br>1.2.7 Datgomisiynu a dymchwel</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>1.2.1<br>Pwysigrwydd cylchred oes yr amgylchedd adeiledig</td><td>Dylai dysgwyr wybod:<br><br>• beth yw ystyr y term cylchred oes yr amgylchedd adeiledig<br>• gwahanol gamau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig:<br>    • cynllunio a dichonoldeb<br>    • dylunio<br>    • adeiladu<br>    • trosglwyddo<br>    • defnydd gweithredol a chynnal a chadw<br>    • ailwampio neu adnewyddu<br>    • datgomisiynu neu ddymchwel ac ailgylchu.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwrpas cylchred oes yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys:<br><br>• ei fanteision<br>• y canlyniadau os nad yw'n cael ei ddefnyddio.</td></tr>
<tr><td>1.2.2<br>Ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y gofynion cynllunio canlynol yn ystod cylchred oes yr amgylchedd adeiledig:<br><br>• yr angen am gynllun rheoli gwastraff<br>• yr angen i leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gydag archebu cywir<br>• ailddefnyddio/adennill deunyddiau heb eu defnyddio lle bynnag y bo modd<br>• ailgylchu deunyddiau lle bynnag y bo modd mewn sgipiau ar wahân.</td></tr>
<tr><td>1.2.3<br>Cynllunio a dichonoldeb, dylunio</td><td>Dylai dysgwyr wybod y camau cynllunio a dichonoldeb canlynol sy'n gysylltiedig â phroject adeiladu:<br><br>• astudiaethau dichonoldeb asesiad o'r effaith amgylcheddol<br>• asesiad o anghenion<br>• ymgysylltu â rhanddeiliaid<br>• dadansoddi safle – defnyddio offer digidol: apiau, mapio digidol, Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), ffotograffiaeth a dronau<br>• cynllunio strategol<br>• cymeradwyaethau rheoleiddiol, megis perchnogaeth tir, newid defnydd tir, cliriad maes awyr, cliriad parth arfordirol</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>ystyriaethau dylunio sy'n gysylltiedig â phroject adeiladu:
<ul>
<li>cyllideb a chyllid</li>
<li>strategaeth gaffael</li>
<li>llinell amser project</li>
<li>cynllunio gwydnwch</li>
</ul></li>
<li>camau dylunio sy'n gysylltiedig â phroject adeiladu:
<ul>
<li>dylunio cysyniadol</li>
<li>dylunio sgematig/technegol</li>
<li>datblygu dyluniad</li>
<li>dogfennaeth adeiladu</li>
<li>adolygu dyluniad a pheirianneg gwerth</li>
<li>cymeradwyo gan y cleient.</li>
</ul></li>
<li>ystyriaethau amgylcheddol yn y cam hwn o'r cylchred:
<ul>
<li>ansawdd aer</li>
<li>yr hinsawdd a phatrymau tywydd</li>
<li>ecosystemau naturiol</li>
<li>topograffeg ac amodau pridd.</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.2.4<br>Adeiladu</td>
<td>
Dylai dysgwyr ddeall manteision defnyddio'r canlynol mewn projectau adeiladu:
<ul>
<li>fframiau portal</li>
<li>cydrannau concrit wedi'u rhag-gastio/rhagdynhau</li>
<li>dulliau toi modern</li>
<li>cydrannau adrannol/SIPS</li>
<li>fframiau dur</li>
<li>fframiau pren</li>
<li>penodi contractwyr:
<ul>
<li>cyrchu deunydd/cadwyni cyflenwi</li>
<li>peirianneg sifil a seiliau</li>
<li>adeiladu'r tanadeileddau a'r aradeileddau</li>
<li>cydosod ar y safle elfennau wedi'u rhagffurfio</li>
<li>gosod a chomisiynu cyfleustodau a gwasanaethau adeiladau</li>
<li>gweithdrefnau trosglwyddo.</li>
</ul></li>
<li>yr ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y cam hwn o'r cylchred:
<ul>
<li>defnydd o egni</li>
<li>lefelau sŵn a llwch</li>
<li>cynhyrchu gwastraff</li>
<li>defnydd dŵr a dŵr ffo.</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr>
<td>1.2.5<br>prosesau trosglwyddo, gweithredol a chynnal a chadw</td>
<td>Dylai dysgwyr wybod y prosesau trosglwyddo canlynol:
<ul>
<li>arolygu a phrofi terfynol</li>
<li>dogfennaeth a'r hyn sydd i'w gyflawni</li>
<li>hyfforddiant a chyfeiriadedd cleientiaid</li>
<li>terfynu cyfreithiol a chontractiol – gweinyddol, cydymffurfio, ariannol.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
<ul>
<li>y prosesau gweithredol canlynol:
<ul>
<li>systemau oeri</li>
<li>darpariaethau glanhau</li>
<li>systemau trydanol</li>
<li>trefnau ymgilio</li>
<li>systemau atal tân</li>
<li>systemau goleuo</li>
<li>systemau diogelwch</li>
</ul></li>
<li>y prosesau cynnal a chadw canlynol:
<ul>
<li>cynnal a chadw gwasanaethau adeiladau megis grisiau symudol, gwresogi, lifftiau</li>
<li>cynnal a chadw cywirol</li>
<li>cynnal a chadw wedi'i gynllunio/ataliol.</li>
</ul></li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod yr ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y cam hwn o'r cylchred:
<ul>
<li>effeithlonrwydd egni</li>
<li>ansawdd aer dan do</li>
<li>effeithlonrwydd dŵr</li>
<li>rheoli gwastraff.</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>1.2.6<br>Ailwampio ac adnewyddu</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall y prosesau ailwampio ac adnewyddu canlynol:
<ul>
<li>asesu a chynllunio</li>
<li>ail-ddylunio</li>
<li>cadwraeth</li>
<li>adeiladu a gweithredu</li>
<li>trosglwyddo ac adolygu.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr wybod yr ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y cam hwn o'r cylchred:
<ul>
<li>aflonyddu ar yr amgylchoedd</li>
<li>ôl-osod egni</li>
<li>ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau.</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 1.2.7<br>Datgomisiynu a dymchwel | Dylai dysgwyr wybod y prosesau dymchwel canlynol:<br><br>• cynllunio:<br>    • caniatadau – mae'n cynnwys gwahanol randdeiliaid megis y cyngor lleol, eiddo/adeiladau cyfagos<br>    • rhaid rhannu asesiadau risg – sy'n cael eu gwneud at bwrpasau iechyd a diogelwch – gyda'r sefydliad a'r gweithwyr dymchwel<br>    • datganiadau dull – gweithdrefnau cam wrth gam ar gyfer cwblhau'r holl dasgau dymchwel yn ddiogel ac yn effeithiol<br>• dulliau dymchwel:<br>    • ffrwydro/mewnffrwydro<br>    • â llaw<br>    • mecanyddol<br>    • detholus.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall gweithdrefnau dymchwel gan gynnwys:<br><br>• sefydlu gweithdrefnau diogelwch ar y safle<br>• datgysylltu cyfleustodau<br>• gwaredu deunyddiau peryglus<br>• tynnu popeth nad yw'n adeileddol<br>• tynnu aradeiledd i lawr<br>• tynnu slabiau a sylfeini<br>• gorffeniad y safle.<br><br>Dylai dysgwyr wybod yr ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn y cam hwn o'r cylchred:<br><br>• defnyddiau peryglus<br>• adfer tir<br>• cynhyrchu gwastraff. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 1.3 Crefftau a chyflogaeth

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:
1.3.1 Rolau swydd
1.3.2 Cael eu cyflogi

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.3.1<br>Rolau swydd | Dylai dysgwyr wybod y crefftau canlynol, eu gwahanol rolau, cyfrifoldebau, dilyniant gyrfa a'u gofynion o ran sgiliau:<br><br>• gweithiwr brics<br>• trydanwr<br>• gweithiwr treftadaeth<br>• peintiwr ac addurnwr<br>• plastrwr<br>• plymwr<br>• töwr<br>• teilsiwr<br>• saer coed (saer/asiedydd).<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r rolau swydd proffesiynol a chyfrifoldebau canlynol:<br><br>• pensaer<br>• peiriannydd gwasanaethau adeiladu<br>• syrfëwr adeiladu<br>• peiriannydd sifil<br>• rheolwr contractau<br>• tirfesurydd<br>• rheolwr safle<br>• peiriannydd adeileddol<br>• syrfëwr meintiau. |
| 1.3.2<br>Ennill cyflogaeth | Dylai dysgwyr ddeall sut y gallent ennill swyddi lefel mynediad yn y sector drwy:<br><br>• ennill cymwysterau perthnasol<br>• prentisiaethau a hyfforddeiaethau<br>• interniaethau/profiad gwaith<br>• rhwydweithio<br>• gwirfoddoli. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector amgylchedd adeiledig i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes amgylchedd adeiledig
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr yr amgylchedd adeiledig
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall sector yr amgylchedd adeiledig o lygad y ffynnon
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 2 Ffocws ar yr Amgylchedd Adeiledig

| | |
|---|---|
| ODA | 24 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 20% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn deall y fframweithiau a'r ystyriaethau ehangach sy'n siapio'r sector amgylchedd adeiledig o ddeddfwriaeth, rheoliadau a rhanddeiliaid allweddol i gynllunio ac asesiadau risg.<br><br>Byddant hefyd yn ystyried manylion adeiladu yng Nghymru er mwyn datblygu dealltwriaeth o'i hamgylchedd adeiledig.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw archwilio:<br>• gweithredu ymarferol y sector<br>• y meddwl sy'n berthnasol i'r sector trwy lens sy'n canolbwyntio ar Gymru. |
| Testunau | 2.1 Deall fframweithiau allweddol yr amgylchedd adeiledig<br>2.2 Yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru<br>2.3 Ystyriaethau adeiladu |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad: 6½ awr<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC<br>50 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesu. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br>Sgiliau Bywyd: Cyfranogiad Cymunedol<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

<table>
<tr><th colspan="2">2.1 Deall fframweithiau allweddol yr amgylchedd adeiledig</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn  y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1 Fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol<br>2.1.2 Rhanddeiliaid<br>2.1.3 Ystyriaethau safle-benodol<br>2.1.4 Ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>2.1.1<br>Fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r agweddau canlynol ar ddeddfwriaeth a rheoleiddio allweddol sy'n llywodraethu'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru:<ul><li>Rheoliadau Adeiladu (Cymru) – pwrpas, sut mae sicrhau diogelwch, goblygiadau o ran mynediad, effeithlonrwydd egni a sefydlogrwydd adeileddol</li><li>Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 – deiliaid dyletswydd allweddol (cleient, dylunydd, contractwr), eu cyfrifoldebau a sut mae risgiau yn cael eu rheoli ar brojectau</li><li>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 – dyletswyddau trosfwaol ar gyfer cyflogwyr, cyflogeion a'r hunangyflogedig i sicrhau diogelwch yn y gweithle</li><li>caniatâd cynllunio – pryd mae ei angen yng Nghymru, trosolwg o'r broses ymgeisio a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2.1.2<br>Rhanddeiliaid</td><td>Dylai dysgwyr wybod am y rhanddeiliaid allweddol a'u rôl:<ul><li>cyrff a sefydliadau proffesiynol:<ul><li>Sefydliad Siartredig Adeiladu (CIOB)</li><li>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</li><li>Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA)/Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW).</li><li>Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)</li><li>cyrff treftadaeth arbenigol, megis Cadw.</li></ul></li><li>rhanddeiliaid allanol:<ul><li>swyddogion rheolaeth adeiladu</li><li>cleientiaid</li><li>rhanddeiliaid cymunedol</li><li>awdurdodau lleol, er enghraifft, adrannau cynllunio a phriffyrdd</li><li>swyddogion cynllunio</li><li>isgontractwyr.</li></ul></li></ul>Dylai dysgwyr ddeall sut y gall blaenoriaethau'r rhanddeiliaid hyn gyd-fynd neu wrthdaro.</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr>
<td>2.1.3<br>Ystyriaethau safle-benodol</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall effaith yr agweddau hyn o ran cynllunio safle a chyflawni project:
<ul>
<li>mynediad i gerbydau, peiriannau a phersonél – pwyntiau mynediad a gadael, lle i droi, a chyfyngiadau</li>
<li>risgiau amgylcheddol – megis cylchfaoedd llifogydd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)</li>
<li>amodau'r tir a siâp y safle – ffiniau, llethr, math o bridd, sefydlogrwydd</li>
<li>agosrwydd at leoliadau sensitif – megis cartrefi, adeiladau masnachol, ysgolion</li>
<li>gofynion diogelwch a ffensio – i ddiogelu offer, diogelwch y cyhoedd, y safle</li>
<li>lleoliad gwasanaethau a chyfleustodau – draenio, trydan, cyflenwad dŵr ac unrhyw gysylltiadau presennol</li>
<li>ffactorau lleoliad trefol o'u cymharu â ffactorau lleoliad gwledig – megis tagfeydd, mynediad cludo/dosbarthu (trefol) o'i gymharu â lleoliad anghysbell, gwasanaethau cyfyngedig (gwledig), cyfyngiadau parcio.</li>
</ul>
Dylai dysgwyr ddeall sut gall yr agweddau uchod effeithio ar brojectau adeiladu.</td>
</tr>
<tr>
<td>2.1.4<br>Ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall yr agweddau amgylcheddol a chynaliadwyedd canlynol a'u heffaith bosibl ar brojectau adeiladu:
<ul>
<li>effaith cylchred oes deunyddiau</li>
<li>effeithlonrwydd egni mewn adeiladau</li>
<li>arferion adeiladu effaith isel</li>
<li>systemau draenio cynaliadwy (SDCau)</li>
<li>cysylltau â nodau polisi Cymru a'r DU, megis:
<ul>
<li>cynnydd mewn effeithlonrwydd dŵr ac egni (adeiladau newydd ac wedi'u hôl-osod)</li>
<li>targedau sero net</li>
<li>targedau cynaliadwyedd (er enghraifft, gwarchod bioamrywiaeth, egni glân, pympiau gwres, defnydd tir cynaliadwy).</li>
</ul>
</li>
</ul></td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.2 Yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.2.1 Dosbarthu tir
2.2.2 Gwahaniaethau datblygu trefol a datblygu gwledig
2.2.3 Adeiladu newydd o'i gymharu ag ailwampio neu gadwraeth

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.2.1<br>Dosbarthu tir | Dylai dysgwyr ddeall sut mae tir yn cael ei ddosbarthu yng Nghymru a sut mae hyn yn effeithio ar opsiynau datblygu, gan gynnwys:<br><br>• diffiniadau – safleoedd tir llwyd (a ddatblygwyd yn flaenorol) a safleoedd tir glas (heb ei ddatblygu)<br>• manteision ac anfanteision:<br>    • tir llwyd – yn agos at isadeiledd; halogiad posibl; costau dymchwel<br>    • tir glas – opsiynau dylunio hyblyg, sensitifrwydd ecolegol; cymhlethdod cynllunio<br>• cyfarwyddyd polisi cenedlaethol – Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ailddefnyddio safleoedd tir llwyd ar gyfer adfywio trefol<br>• rôl cynlluniau datblygu lleol (CDLl) – sut maent yn dylanwadu ar flaenoriaethau defnydd tir yng Nghymru. |
| 2.2.2<br>Gwahaniaethau datblygu trefol a datblygu gwledig | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• gwerthuso'r prif nodweddion, yr heriau a'r blaenoriaethau wrth ddatblygu mewn lleoliadau trefol a gwledig yng Nghymru, gan gynnwys:<br>    • argaeledd tir a maint y safle<br>    • dwysedd y boblogaeth ac anghenion tai<br>    • mynediad at gyfleustodau a gwasanaethau<br>    • cost a dosbarthu deunyddiau<br>    • effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol<br>    • cysylltiadau trafnidiaeth ac isadeiledd.<br><br>• gwerthuso gwahanol enghreifftiau o ddatblygiadau yng Nghymru:<br>    • trefol: er enghraifft, adfywio Bae Caerdydd, ailddatblygu Marchnad y Frenhines yn y Rhyl<br>    • gwledig: er enghraifft, Ecobentref Lammas yn Sir Benfro, Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis. |
| 2.2.3<br>Adeiladu newydd o'i gymharu ag ailwampio neu gadwraeth | Dylai dysgwyr ddeall goblygiadau'r gwahanol fathau hyn o brojectau adeiladu, gan gynnwys:<br><br>• cymharu costau, amser a charbon<br>• heriau uwchraddio adeiladau hŷn<br>• cyfyngiadau ar adeiladau rhestredig/ardaloedd cadwraeth<br>• deunyddiau a thechnegau<br>• cyfuno nodweddion hen a newydd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.3 Ystyriaethau adeiladu

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:

2.3.1 Dulliau a deunyddiau adeiladu
2.3.2 Cynllunio projectau
2.3.3 Iechyd a diogelwch

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 2.3.1<br>Dulliau a deunyddiau adeiladu | Dylai dysgwyr allu awgrymu a chyfiawnhau gwahanol ddulliau a deunyddiau adeiladu, gan gydnabod lle mae pob un ohonynt fwyaf addas, gan gynnwys:<br><br>• dulliau adeiladu:<br>  • brics/blociau, modiwlaidd/wedi'i ragffurfio, ffrâm bren<br>  • adeiladu ar y safle o'i gymharu ag adeiladu oddi ar y safle – manteision ac anfanteision<br>  • technolegau newydd – Paneli Adeileddol wedi'u Hinswleiddio (SIP), Ffurfwaith Concrit wedi'i Inswleiddio (ICF) a systemau toeau gwyrdd<br>  • ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis dull – cost, gofynion dylunio, lleoliad, cyflymder adeiladu, cynaliadwyedd<br>• deunyddiau:<br>  • cymhariaeth: cyfansoddion, concrit, dur, pren – gan ystyried:<br>    • cost<br>    • perfformiad thermol<br>    • anghenion cynnal a chadw<br>    • cryfder a gwydnwch<br>    • addasrwydd ar gyfer y defnydd arfaethedig. |
| 2.3.2<br>Cynllunio projectau | Dylai dysgwyr allu gwerthuso sut mae projectau'n cael eu cynllunio i sicrhau eu cyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys:<br><br>• pwrpas a strwythur cynllun project a defnyddio offer cynllunio<br>• trefn gweithrediadau<br>• gwneud penderfyniadau<br>• llwybrau critigol a thagfeydd<br>• enghreifftiau o'r byd go iawn. |
| 2.3.3<br>Iechyd a diogelwch | Dylai dysgwyr wybod am asesiadau risg a datganiadau dull (RAMS).<br><br>Dylai dysgwyr allu darganfod risgiau iechyd a diogelwch posibl trwy wybod:<br><br>• sut i ddehongli asesiad risg syml a nodi mesurau rheoli addas<br>• canlyniadau diffyg cydymffurfio ar gyfer diogelwch, cyfreithlondeb ac enw da. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector amgylchedd adeiledig i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol y diwydiant
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall sector yr amgylchedd adeiledig o lygad y ffynnon.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 3 Datblygu a Dangos Sgiliau

| | |
|---|---|
| ODA | 72 |
| Cyfraniad at radd y cymhwyster | 60% |
| Trosolwg o'r uned | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu, cymhwyso a gwerthuso sgiliau ymarferol o dri maes crefft gwahanol o fewn y sector amgylchedd adeiledig.<br><br>Trwy weithio ar draws crefftau lluosog, bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth ehangach o ddisgwyliadau'r sector a'r sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr yn eu hystyried yn werthfawr.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw:<br>• ennill profiad ymarferol mewn meysydd crefft penodol<br>• defnyddio offer, technegau a phrosesau sy'n berthnasol i'r sector<br>• deall pwysigrwydd cynllunio, diogelwch, ac ansawdd mewn gweithgareddau crefft<br>• adfyfyrio ar berfformiad i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. |
| Testunau | 3.1 Sgiliau'n ymwneud â chrefft<br>3.2 Paratoi ar gyfer arddangos sgiliau<br>3.3 Arddangos sgiliau<br>3.4 Adolygu arddangos sgiliau |
| Crynodeb o'r asesu | Asesiad di-arholiad: 14 awr<br>Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC<br>90 marc |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesu | Mae angen y lle, y deunyddiau a'r offer angenrheidiol ar ganolfannau a fydd yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â thasgau ymarferol ar gyfer yr asesu. Bydd angen iddynt gael yr offer a'r deunyddiau a nodir yn 3.1 sy'n berthnasol i'r crefftau sy'n cael eu haddysgu. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br>Sgiliau Bywyd: Cymorth Cyntaf sylfaenol<br>Sgiliau Bywyd: Rheoli a Chynnal a Chadw Cartref<br>Sgiliau Bywyd: Diogelwch Personol<br>Sgiliau Bywyd: Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn Bywyd Bob Dydd<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol<br>Sgiliau Gwaith: Hawliau a Chyfrifoldebau yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Bydd dysgwyr yn dewis datblygu ac arddangos sgiliau mewn **tair** crefft o'r rhestr ganlynol:

- gwaith brics
- trydanol
- adeiladu treftadaeth
- paentio ac addurno
- plastro
- gwaith plymio
- gwaith ar y to
- teilsio
- gwaith coed.

## Cynnwys

DRAFT

### 3.1 Sgiliau'n ymwneud â chrefft

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn **tri** o'r meysydd canlynol:

3.1.1 Gwaith brics
3.1.2 Trydanol
3.1.3 Adeiladu treftadaeth
3.1.4 Paentio ac addurno
3.1.5 Plastro
3.1.6 Gwaith plymio
3.1.7 Gwaith ar y to
3.1.8 Teilsio
3.1.9 Gwaith coed

Dylai canolfannau ddewis deunyddiau, offer a thechnegau sy'n briodol i'w hadnoddau, ar gyfer y dysgwr, a'r meysydd adeiladu a'r gweithgareddau crefft adeiladu a ddewiswyd i'w hasesu.

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.1.1<br>Gwaith brics | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• adnabod y deunyddiau canlynol:<br>  ◦ brics clai<br>  ◦ blociau concrit<br>  ◦ calch<br>  ◦ morter<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>  ◦ cŷn bras<br>  ◦ morthwyl clwb<br>  ◦ bar uniadu<br>  ◦ pinnau llinell a llinell linyn<br>  ◦ brwsh meddal<br>  ◦ lefel wirod<br>  ◦ tryweli: brics, medryddu<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>  ◦ mesur a marcio<br>  ◦ medryddu a pharatoi morter<br>  ◦ taenu morter |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| |   • gosod brics i linell a lefel<br>  • cynnal patrymau bondio<br>  • torri brics i ffitio<br>  • uniadu a gorffennu<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>  • mesur a marcio cywir<br>  • gorffeniad uniadau cyson<br>  • patrymau bondio cywir<br>  • dehongli lluniadau a chynlluniau wal i nodi patrwm bondio cywir, uchder cwrs, a lleoliad agoriadau<br>  • cynnal gwaith lefel a phlwm<br>  • trin brics a morter â llaw yn ddiogel<br>  • defnyddio offer gosod brics yn ddiogel<br>  • dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ddiogel megis menig ac esgidiau diogelwch. |
| 3.1.2<br>Trydanol | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• adnabod y deunyddiau canlynol:<br>  • clipiau cebl<br>  • ffiwsiau<br>  • topiau plygiau<br>  • cebl dwbl a daear PVC<br>  • socedi<br>  • blychau wedi'u gosod ar yr arwyneb<br>  • switshys.<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>  • gwellaif ceblau<br>  • stripiwr ceblau<br>  • profwr didoriant<br>  • haclif fach<br>  • torwyr ochr<br>  • set tyrnsgriwiau terfynell.<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>  • darllen diagramau cylched syml<br>  • ynysu cyflenwad yn ddiogel<br>  • mesur a pharatoi cebl<br>  • stripio a therfynu ceblau<br>  • gosod ffitiadau wedi'u gosod ar yr arwyneb<br>  • diogelu ceblau<br>  • profi didoriant gydag offer priodol.<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>  • paratoi ceblau'n gywir<br>  • cydosod cylched sylfaenol<br>  • cysylltiadau terfynellau cywir<br>  • darllen a dehongli diagramau cylched syml i ganfod llwybrau gwifro, lleoliad ffitiadau, a therfynellau cywir<br>  • ynysu cyflenwad trydanol yn ddiogel<br>  • gweithio'n ddiogel gyda systemau foltedd isel<br>  • dewis a defnyddio offer wedi'u hinswleiddio yn gywir. |
| 3.1.3 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| Adeiladu treftadaeth | • adnabod y deunyddiau canlynol:<br>◦ morter calch<br>◦ carreg naturiol<br>◦ pren wedi'i adennill<br>◦ llechi toi traddodiadol.<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>◦ brwshys cadwraeth<br>◦ llawlif<br>◦ cynion meddal<br>◦ bwrdd sgridio<br>◦ gordd bren.<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>◦ dehongli lluniadau/manylebau cadwraeth<br>◦ paratoi/glanhau arwynebau treftadaeth<br>◦ cymysgu morter calch i'r cymarebau cywir<br>◦ defnyddio morter calch (haenu/ailbwyntio)<br>◦ torri a gosod cerrig neu lechi<br>◦ ffurfio gorffeniadau uniadu traddodiadol<br>◦ diogelu a glanhau deunyddiau treftadaeth ar ôl eu cwblhau.<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>◦ cymarebau cywir ar gyfer morter calch<br>◦ rhagofalon trin a storio ar gyfer morter calch<br>◦ dehongli lluniadau a manylebau cadwraeth i osod morter calch, gorffeniadau uniadu, a deunyddiau yn unol â gofynion gwaith treftadaeth<br>◦ cynnal dilysrwydd wrth atgyweirio<br>◦ diogelwch sgaffald a mynediad<br>◦ dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir megis menig, goglau a mygydau llwch<br>◦ trin a thrafod deunyddiau hanesyddol yn sensitif<br>◦ defnyddio gosodiadau sy'n briodol i waith treftadaeth. |
| 3.1.4<br>Paentio ac addurno | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• adnabod y deunyddiau canlynol:<br>◦ papur sgraffinio<br>◦ paent emwlsiwn<br>◦ llenwad<br>◦ paent preimio/tanbaent<br>◦ past papur wal a phapur wal/gorchuddion waliau<br>◦ paent sglein.<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>◦ brwsh torri i mewn<br>◦ cyllell lenwi<br>◦ brwsh blew ffwlbart<br>◦ tegell paent<br>◦ ffrâm a llewys rholer<br>◦ bloc sandio. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • arddangos technegau perthnasol:<br>    • dehongli lluniadau/amserlenni addurno<br>    • paratoi arwynebau (llenwi, sandio, glanhau)<br>    • paentio arwynebau â phaent preimio/tanbaent lle bo angen<br>    • torri i mewn gyda brwsh<br>    • rholio/brwsio arwynebedd mawr i sicrhau haenen gyson<br>    • defnyddio sawl cot o baent i sicrhau gorffeniad llyfn<br>    • hongian papur wal/gorchudd wal (gan sicrhau bod y patrwm yn matsio ar ddau stribed wrth ei hongian)<br>    • gorffennu a gwirio'r edrychiad cyffredinol.<br>• arddangos sgiliau ac ymarfer perthnasol:<br>    • sicrhau ymylon taclus, glân<br>    • trwch cyson o baent<br>    • cynnal a chadw brwshys a rholeri'n gywir<br>    • defnyddio ysgolion bach ac offer mynediad yn gywir<br>    • trin a thrafod cynhyrchion sy'n seiliedig ar hydoddyddion<br>    • dehongli lluniadau neu amserlenni addurno er mwyn dilyn cynlluniau lliw, dilyniannau hongian papur wal/gorchudd wal a manylebau gorffennu<br>    • sicrhau awyru digonol wrth weithio<br>    • paratoi arwynebau i safon broffesiynol. |
| 3.1.5<br>Plastro | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• adnabod y deunyddiau canlynol:<br>    • plastr: bondio, aml-orffeniad<br>    • cyfrwng bondio PVA<br>    • dŵr.<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>    • min pluen<br>    • hawg<br>    • padl gymysgu<br>    • tryweli: bwced, cornel, plastro dur gwrthstaen.<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>    • dehongli manylion plastro<br>    • paratoi arwynebau (glanhau, defnyddio cyfrwng bondio)<br>    • cymysgu plastr i'r tewychedd cywir<br>    • rhoi cot sylfaen<br>    • gwastatáu i sicrhau gwastadrwydd<br>    • rhoi cot orffen<br>    • trywelu i sicrhau arwyneb llyfn, gwastad<br>    • ffurfio onglau a chorneli yn gywir.<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>    • sicrhau arwynebau gwastad a llyfn<br>    • technegau cymysgu cywir er mwyn osgoi anaf<br>    • trwch plastr cywir<br>    • rheoli llwch a'i waredu'n ddiogel |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>dehongli manylion plastro (lluniadau, dimensiynau, a lleoliadau gleiniau ymyl/atal) i gynllunio cymhwyso cotiau a gorffeniadau</li>
<li>cynnal ymylon gwlyb</li>
<li>trin offer a defnyddiau yn ddiogel</li>
<li>dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir megis mygydau a goglau.</li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>3.1.6<br>Gwaith plymio</td>
<td>
Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
<ul>
<li>adnabod y deunyddiau canlynol:
<ul>
<li>ffitiadau cywasgedd</li>
<li>peipen gopr</li>
<li>peipen blastig</li>
<li>tâp PTFE.</li>
</ul></li>
<li>gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod</li>
<li>defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:
<ul>
<li>sbring plygu</li>
<li>sbaner cywasgedd</li>
<li>sleisiwr peipiau copr</li>
<li>haclif</li>
<li>torwyr peipiau plastig</li>
<li>clipiau peipiau</li>
<li>agorell peipiau.</li>
</ul></li>
<li>arddangos technegau perthnasol:
<ul>
<li>dilyn diagramau cynllunio/cynlluniau plymio</li>
<li>mesur a marcio rhediadau peipiau</li>
<li>torri peipen i hyd</li>
<li>plygu peipen (lle bo angen)</li>
<li>ffurfio a gosod uniadau (cywasgu/hydoddydd) yn dynn</li>
<li>selio ffitiadau ag edau ynddynt gyda thâp PTFE</li>
<li>sicrhau gwaith peipiau gyda chlipiau / cynalyddion</li>
<li>profi am ollyngiadau a llif.</li>
</ul></li>
<li>arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:
<ul>
<li>mesur peipiau’n gywir</li>
<li>trin a thrafod a gosod gwaith peipiau yn gywir</li>
<li>defnyddio offer plygu a thorri yn gywir</li>
<li>dilyn diagramau cynllunio plymio i nodi rhediadau peipiau, cyflenwadau dŵr poeth/oer, cysylltiadau peiriannau, a dulliau uniadu cywir</li>
<li>nodi a rheoli risgiau cyflenwadau dŵr poeth/oer</li>
<li>sicrhau nad yw uniadau’n gollwng</li>
<li>gweithio’n ddiogel mewn mannau cyfyng</li>
<li>dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir megis menig a sbectol ddiogelwch.</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
<tr>
<td>3.1.7<br>Gwaith ar y to</td>
<td>
Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
<ul>
<li>adnabod y deunyddiau canlynol:
<ul>
<li>pilen 'sy'n gallu anadlu'</li>
<li>hoelion galfanedig neu gopr</li>
<li>lapiad plwm</li>
<li>llechi naturiol</li>
</ul></li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | ◦ ffelt toi<br>◦ teils to<br>◦ clipiau teils.<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>◦ llinell sialc<br>◦ cwdyn dal hoelion<br>◦ sgwâr toi<br>◦ morthwyl llechi<br>◦ rhwygwr llechi.<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>◦ dehongli lluniadau/cynlluniau mesur a marcio to<br>◦ gosod haen waelodol/pilen 'sy'n gallu anadlu'<br>◦ mesur a marcio a gosod estyll i led penodol<br>◦ torri a gosod llechi/teils i gywiro gorgyffwrdd<br>◦ cynnal lled/llinellau cyson<br>◦ gosod ymyl neu blygiad plwm<br>◦ gosod cribau'n dynn<br>◦ gwirio deunydd diddosi rhag tywydd garw.<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>◦ torri deunyddiau toi yn fanwl gywir<br>◦ ymwybyddiaeth o risgiau ymylon to a'u rheoli<br>◦ cywiro gorgyffwrdd<br>◦ defnyddio systemau atal cwymp a mynediad at do yn gywir<br>◦ dehongli lluniadau to a chynlluniau mesur a marcio i ganfod lled estyll, cynllun teils/llechi, a manylion plygiad plwm<br>◦ cynnal lled cyson<br>◦ clymu gosodiadau'n dynn<br>◦ dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir megis harneisi ac esgidiau diogelwch. |
| 3.1.8<br>Teilsio | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• adnabod y deunyddiau canlynol:<br>◦ adlyn<br>◦ growt<br>◦ teils: ceramig, porslen<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>◦ fflôt growt<br>◦ torrwr teils â llaw<br>◦ gwahanyddion<br>◦ lefel wirod<br>◦ niperi teils<br>◦ trywel: bwced, bylchog.<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>◦ darllen cynllun/dyluniad teils<br>◦ marcio a mesur mannau cychwyn er mwyn lleihau nifer y toriadau<br>◦ gwasgaru adlyn gyda thrywel bylchog |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • gosod teils i linell gyda gwahanyddion<br>• torri teils i ffitio o amgylch ymylon/agoriadau<br>• growtio uniadau yn gyfartal<br>• glanhau a gorffennu arwyneb y teils.<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>• toriadau teils cywir<br>• gorffennu glân<br>• uniadau growt cyson<br>• rheoli llwch a mygdarthau adlyn<br>• cynnal llinellau syth<br>• darllen cynlluniau teilsio i farcio a mesur mannau cychwyn, cynlluniau teils, a gofynion torri o amgylch agoriadau ac ymylon<br>• trin a thrafod a thorri teils yn ddiogel<br>• dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir megis menig a goglau. |
| 3.1.9<br>Gwaith coed | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• adnabod y deunyddiau canlynol:<br>• pinnau panel<br>• glud polyfinyl asetad (glud PVA)<br>• pren meddal (wedi'i blaenio i gyd (PAR)).<br>• gweithio gyda'r deunyddiau perthnasol o'r rhestr uchod<br>• defnyddio'r offer perthnasol sy'n benodol i'r deunyddiau y maent yn dewis gweithio gyda nhw, gan gynnwys:<br>• bachyn mainc<br>• morthwyl crafanc<br>• cŷn ffyrf<br>• riwl ddur<br>• llif dyno<br>• sgwâr profi.<br>• arddangos technegau perthnasol:<br>• dehongli rhestr dorri a lluniadau gweithio i baratoi pren, cydosod uniadau, a ffitio cydrannau yn y drefn gywir<br>• marcio a mesur pren yn gywir<br>• mesur a marcio uniadau'n gywir<br>• torri uniadau gyda llifiau a chynion<br>• naddu a thrimio i'r ffit derfynol<br>• cydosod cydrannau a gosod toriadau pren yn dynn<br>• ffurfio uniadau sgwâr a chyfwyneb<br>• gorffennu arwynebau'n lân ac yn daclus.<br>• arddangos sgiliau a thechnegau perthnasol:<br>• trin a thrafod offer miniog yn gywir<br>• cynnal amgylchedd mainc gweithio diogel<br>• defnyddio offer llaw yn ddiogel<br>• dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir megis sbectol ddiogelwch. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="2">3.2 Paratoi ar gyfer arddangos sgiliau</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1 Paratoi ar gyfer gweithgareddau crefft<br>3.2.2 Paratoi'r ardal waith</td></tr>
<tr><th>Adran</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>3.2.1<br>Paratoi ar gyfer gweithgareddau crefft</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
<ul>
<li>deall gofynion gweithgaredd crefft trwy wneud y canlynol:
<ul>
<li>dehongli gwybodaeth allweddol</li>
<li>nodi gofynion allweddol megis deunyddiau, dulliau, dimensiynau, gorffeniadau</li>
<li>nodi gofynion iechyd a diogelwch, rheoliadau perthnasol, a safonau ansawdd</li>
<li>nodi gwybodaeth sydd ar goll a gwybod sut i ofyn am eglurhad neu fanylion ychwanegol</li>
<li>cydnabod cyfyngiadau megis yr adnoddau sydd ar gael, cyfyngiadau cyllideb, amodau amgylcheddol neu derfynau amser a chynllunio unrhyw addasiadau angenrheidiol</li>
<li>cynllunio gweithgareddau mewn trefn resymegol i fodloni'r canlyniadau angenrheidiol mewn modd effeithlon a diogel</li>
<li>cynllunio trefn waith ac adnoddau sydd eu hangen yn seiliedig ar y wybodaeth benodedig.</li>
</ul></li>
<li>ymgymryd â'r camau cynllunio canlynol:
<ul>
<li>dewis yr offer, y deunyddiau a'r technegau priodol sy'n berthnasol i'w tair crefft ddewisol</li>
<li>dewis y cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir</li>
<li>nodi unrhyw risgiau</li>
<li>pennu meini prawf llwyddiant clir ar gyfer pob gweithgaredd crefft i sicrhau eu bod yn gallu adolygu eu perfformiad yn effeithiol.</li>
</ul></li>
</ul>
Dylai'r offer a'r technegau a ddewiswyd adlewyrchu arferion cyffredin y diwydiant ledled Cymru a'r DU.</td></tr>
<tr><td>3.2.2<br>Paratoi'r ardal waith</td><td>Dylai dysgwyr allu dangos sut i baratoi ardal waith ar gyfer gweithgaredd crefft.<br><br>Dylai'r paratoi hyn adlewyrchu arferion gwaith diogel, effeithlon a phroffesiynol a ddefnyddir yn y sector amgylchedd adeiledig. Dylai hyn gynnwys:
<ul>
<li>trefnu offer a deunyddiau mewn trefn resymegol er effeithlonrwydd a symud cyn lleied â phosibl yn ystod y gweithgaredd crefft</li>
<li>gwirio diogelwch yr ardal waith, gan gynnwys cael gwared ar beryglon baglu, rhoi gwybod am unrhyw broblemau posibl, sicrhau bod offer yn lân cyn eu defnyddio</li>
<li>glanhau a chynnal a chadw offer cyn eu defnyddio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr</li>
</ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • gwirio bod mynediad at gyfleustodau (lle bo'n berthnasol), megis cyflenwad pŵer ar gyfer offer trydanol, cyflenwad dŵr ar gyfer plastro, neu awyru ar gyfer gweithgareddau crefft paentio ac addurno<br>• mesur a marcio'n gywir gan ddefnyddio offer mesur priodol (er enghraifft, tâp mesur, lefel wirod, llinell sialc, lefel laser)<br>• lleoli deunyddiau yn agos at yr ardal waith ond mewn lleoliad diogel, sefydlog i leihau trin a thrafod diangen a lleihau'r risg o ddifrod<br>• diogelu'r ardal gyfagos rhag cael ei difrodi gan eu gwaith. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **3.3 Arddangos sgiliau** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1 Cynnal gweithgareddau crefft ymarferol<br>3.3.2 Disgwyliadau gweithio | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.3.1<br>Cynnal gweithgareddau crefft ymarferol | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br><br>• dilyn cyfarwyddiadau, dimensiynau, a goddefiannau yn gywir ym mhob gweithgaredd crefft ymarferol<br>• cwblhau gweithgareddau crefft ymarferol ym mhob un o'u tair crefft ddewisol, gan ganolbwyntio ar fanwl gywirdeb, gorffeniad ac ansawdd cyffredinol y canlyniad. Mae hyn yn cynnwys:<br>    • gweithio i'r fanyleb ofynnol ar gyfer pob gweithgaredd crefft<br>    • dilyn gweithdrefnau i ddiogelu eu hunain ac eraill<br>    • sicrhau bod gwaith wedi'i alinio, yn lefel, yn blwm ac o fewn goddefiannau crefft derbyniol<br>    • cynnal safon gorffeniad gyson ar draws yr holl weithgaredd crefft<br>    • gwirio'r waith yn ystod pob cam i nodi a chywiro gwallau.<br>    • gosod gwaith i linell, lefel, a sgwâr<br>    • defnyddio offer mesur yn gywir (er enghraifft, sgwâr, lefel wirod, tâp mesur)<br>    • deall a chymhwyso goddefiannau crefft cyffredin (er enghraifft, uniadau llyfn, gosodiadau lefel, toriadau syth).<br>• dilyn cyfarwyddiadau yn gywir<br>• bodloni gofynion y gweithgaredd crefft<br>• addasu i gyfyngiadau'r byd go iawn. |
| 3.3.2<br>Disgwyliadau gweithio | Dylai dysgwyr allu defnyddio offer, cyfarpar a deunyddiau yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn unol ag arferion gorau sy'n benodol i'r grefft. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• rheoli offer yn gywir at y diben a fwriadwyd<br>• trin, storio a gwaredu deunyddiau'n ddiogel<br>• lleihau gwastraff ac osgoi gwallau trwy arferion gwaith da<br>• gweithio'n effeithlon ac yn gyfrifol mewn gweithle wedi'i rannu<br>• glanhau, cynnal a chadw a dychwelyd offer ar ôl eu defnyddio. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.4 Adolygu arddangos sgiliau

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.4.1 Adolygu a gwerthuso
3.4.2 Nodi meysydd i'w gwella
3.4.2 Defnyddio iaith werthusol sy'n gysylltiedig â disgwyliadau'r diwydiant

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.4.1<br>Adolygu a gwerthuso | Dylai dysgwyr ddeall sut i adolygu effeithiolrwydd eu perfformiad cyffredinol ym mhob un o'u tair crefft ddewisol.<br><br>Dylai hyn gynnwys gwerthuso:<br><br>• pa mor dda yr oeddent yn deall y gweithgareddau crefft gofynnol<br>• pa mor dda y gwnaethon nhw gynllunio<br>• pa mor drefnus a pharod oedd eu hardal waith, gan gynnwys dewis offer a deunyddiau cywir<br>• cywirdeb, taclusrwydd, ac ansawdd cyffredinol yr holl weithgareddau crefft a gwblhawyd<br>• a oedd y gwaith yn bodloni gwybodaeth y gweithgaredd crefft<br>• a oeddent wedi bodloni eu meini prawf llwyddiant eu hunain<br>• eu cryfderau – er enghraifft adnabod eiliadau penodol lle'r oedd y dechneg gywir, gwneud penderfyniadau da, neu ddatrys problemau wedi cyfrannu at ansawdd y gwaith. |
| 3.4.2<br>Nodi meysydd i'w gwella | Dylai dysgwyr ddeall sut i wella eu sgiliau ym **mhob un** o'u tair crefft ddewisol.<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br><br>• darparu gwerthusiad realistig a chytbwys o sgiliau, megis manwl gywirdeb, cysondeb, effeithlonrwydd, rheoli offer, rheoli amser, a chadw at ofynion iechyd a diogelwch<br>• tynnu sylw at unrhyw gamgymeriadau, camau na chafodd eu cwblhau, neu bwyntiau lle nad oedd y gwaith yn bodloni'r meini prawf llwyddiant y cytunwyd arnynt neu'r gweithgaredd tasg adeiladu<br>• awgrymu newidiadau neu nodau ymarferol a chyraeddadwy ar gyfer gweithgareddau crefft yn y dyfodol, megis mireinio techneg, gwella cyflymder heb aberthu ansawdd, neu wella trefnau paratoi<br>• ystyried effaith y gwelliannau hyn ar berfformiad yn y dyfodol mewn cyd-destunau hyfforddiant, lleoliad gwaith, neu gyflogaeth. |
| 3.4.3<br>Defnyddio iaith werthusol sy'n gysylltiedig â disgwyliadau'r diwydiant | Dylai dysgwyr ddeall sut i gyfathrebu'n glir gan ddefnyddio terminoleg adeiladu briodol ac ymatebion strwythuredig.<br><br>Dylai hyn gynnwys: |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • disgrifio ansawdd eu gwaith gan ddefnyddio termau sy'n benodol i'r grefft yn fanwl gywir (er enghraifft, bondio, torri i mewn, gosod, cyfwyneb, plwm, mesur a marcio)<br>• esbonio *pam* y dewiswyd offer, deunyddiau a thechnegau penodol, a sut y gwnaeth y rhain ddylanwadu ar y canlyniad<br>• cyfeirio'n uniongyrchol at feini prawf llwyddiant, goddefiannau'r diwydiant, neu safonau'r sector wrth gyfiawnhau barn<br>• cysylltu arsylwadau â disgwyliadau yn y gweithle, megis cywirdeb, gwydnwch, cyflwyno a safonau diogelwch<br>• cyflwyno eu gwerthusiad yn rhesymegol ac yn broffesiynol fel y byddai modd ei ddeall mewn lleoliad gweithle go iawn. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector amgylchedd adeiledig i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes amgylchedd adeiledig
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr yr amgylchedd adeiledig
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall sector yr amgylchedd adeiledig o lygad y ffynnon
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3. Asesu

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1. Amcanion asesu a phwysoliadau

Mae amcanion asesu'r cymhwyster hwn wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector amgylchedd adeiledig.

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector amgylchedd adeiledig.

**AA3**
Dehongli a/neu werthuso gwybodaeth, syniadau, tystiolaeth neu sgiliau sy'n berthnasol i'r sector amgylchedd adeiledig.

**AA4**
Arddangos a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i'r sector amgylchedd adeiledig drwy:

- ddefnyddio offer, cyfarpar a/neu ddeunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol
- ymateb i wybodaeth a/neu ofynion penodol y diwydiant.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | - | - | 20% |
| Uned 2 | - | - | 10% | 10% | 20% |
| Uned 3 | - | - | 10% | 50% | 60% |
| Pwysoliad cyffredinol | **10%** | **10%** | **20%** | **60%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.2. Trosolwg o'r Asesu

### Uned 1
Asesir yr uned hon trwy brawf sector sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau prawf sector byr, un awr, sydd wedi'i gynllunio i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol (AA1 ac AA2 yn unig). Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer naill ai fformat papur neu ar y sgrin o'r prawf.

Bydd y prawf yn cael ei farcio allan o 50 ac mae ganddo ddwy adran gwerth 25 marc yr un. Mae Adran A yn cwmpasu AA1 a bydd yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau gwrthrychol, megis cwestiynau dewis lluosog, ymateb lluosog, llenwi'r bwlch, llusgo a gollwng, a chwestiynau man poeth. Mae Adran B yn cwmpasu AA2 ac yn cynnwys cwestiynau ateb byr y gallai rhai ohonynt fod yn seiliedig ar senarios byr o'r diwydiant.

Rhaid gwneud y prawf o dan amodau arholiad a oruchwylir yn unol â gofynion CGC (gweler http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations).

Bydd yr asesiad cyntaf yn digwydd ym mis Ionawr 2028. Gall canolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer copi caled neu fersiwn ar y sgrin o'r prawf.

Mae'r prawf hwn yn cyfrannu 20**%** o radd gyffredinol y cymhwyster ac mae'n cael ei osod a'i farcio'n allanol gan CBAC.

CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r prawf.

### Uned 2
Asesir yr uned hon trwy asesiad di-arholiad sy'n cael ei osod a'i farcio'n allanol. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar astudiaeth achos sy'n cael ei gosod yn allanol. Bydd yr astudiaeth achos yn gosod y cyd-destun ac yn cynnwys set o dasgau sy'n caniatáu i ddysgwyr gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r uned. Bydd yr astudiaeth achos yn canolbwyntio ar broject adeiladu penodol i Gymru ac yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i ddarparu cyd-destun i ddysgwyr.

Bydd yr astudiaeth achos yn cael ei rhyddhau drwy safle Porth yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w defnyddio yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd yr astudiaeth achos yn newid bob blwyddyn. Ni ddylai dysgwyr gael mynediad i'r aseiniad na'r tasgau cysylltiedig tan ddechrau'r asesiad. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 20% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 6½ awr i'w gwblhau. Caniateir amser i ddysgwyr ddarllen yr astudiaeth achos a'r tasgau cyn i'r amser asesu ddechrau a gellir trefnu dwy awr arall ar gyfer gwaith ymchwil cyn cwblhau'r tasgau asesu. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 50 marc.

Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu wedi'u cwblhau'n ddigidol.

### Uned 3
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod yn allanol, a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau yn seiliedig ar friff sy'n cael ei osod yn allanol. Byddant yn arddangos eu sgiliau ar draws tair crefft ac yn gwerthuso'r arddangosiad o'u sgiliau.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Bydd y briff yn cael ei ryddhau drwy'r Porth ar ddechrau Medi yn y flwyddyn addysgu gyntaf ac ni fwriedir iddo newid dros hyd oes y cymhwyster. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn cyfredol yr asesiad fel y'i cyhoeddwyd ar safle Porth. Bydd gan ganolfannau'r hyblygrwydd i drefnu'r asesiad ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn cyfrannu 60% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 14 awr i'w gwblhau. Gall canolfannau ddewis cyflwyno'r asesiad mewn un sesiwn neu ar draws sawl sesiwn fyrrach, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr a hyd y tasgau. Bydd yr asesiad yn cael ei farcio allan o 90 marc.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth a gyflwynir ar gyfer cymedroli allanol yn ddigidol, naill ai ar ffurf ffotograffau wedi'u sganio neu recordiadau o'r tasgau adeiladu a gwblhawyd ac, ar gyfer y gwerthusiad, naill ai fel ymatebion wedi'u hysgrifennu â llaw a'u sganio, wedi'u cwblhau'n electronig neu wedi'u cwblhau fel ymateb sain neu glywedol/gweledol.

## 3.3. Rheoli'r asesiad di-arholiad

Mae'r asesiad di-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at yr egwyddorion a nodir yn nogfen y *CGC Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol).* Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer Manylebau TAG a TGAU yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

### Gosod tasgau

Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

### Gwneud Tasgau

Mae cwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei lywio gan ddau gam:

- y cam ymchwil
- cam yr Asesiad Di-arholiad.

Efallai y gofynnir i ddysgwyr gynnal ymchwil fel rhan o'r cam ymchwil, gellir dod o hyd i wybodaeth am y cam ymchwil gan gynnwys dull ymchwil a chyfeirio, yn y pecyn asesu.

Yn ystod cam yr asesiad di-arholiad gellir dod o hyd i wybodaeth am yr amodau asesu, wedi'u categoreiddio fel uchel, canolig ac isel yn y pecyn asesu. Gellir hefyd dod i hyd i wybodaeth am adnoddau, wedi'u categoreiddio fel dim, penodol, ac wedi'u caniatáu yn y pecyn asesu.

Mae rhagor o wybodaeth am y cam ymchwil a cham yr asesiad di-arholiad, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) ar gael yng *Nghanllaw i Athrawon CBAC Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16* a *Chanllaw i Ymgeiswyr Cynnal Asesiad Di-arholiad mewn Cymwysterau Cenedlaethol 14–16*.

Mae ystyriaethau eraill wrth wneud tasgau, yn cynnwys:

- amser: mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael; caiff cyfnod amser ei awgrymu ar gyfer pob tasg er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel bo'n briodol
- goruchwylio a dilysu: bydd dysgwyr yn cael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

### Marcio Tasgau

Ar gyfer asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4. Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol yn ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd yn unig. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen gyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân ar gyfer ailgyflwyniad. Gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau er mwyn darparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i ddysgwyr i ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno. (gweler Adran 5.4).

## 3.5 Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau camymddwyn CBAC. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TAAU Amgylchedd Adeiledig.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau. (Yn Saesneg)

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4.Gwybodaeth Dechnegol

## 4.1. Cofrestriadau unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael ym mis Ionawr 2028 (ac ym mhob cyfres mis Mehefin a mis Ionawr wedi hynny).

Bydd Uned 3 ar gael ym mis Ionawr 2029 (ac ym mhob cyfres mis Ionawr a mis Mehefin wedi hynny).

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Prawf Sector | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Uned 2 | Asesiad di-arholiad allanol | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Uned 3 | Asesiad Di-arholiad | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod Cyfnewid | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 4.3. Graddio ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TAAU yn cael eu hadrodd ar raddfa chwe phwynt: Lefel 2 Rhagoriaeth* (L2RH*) Lefel 2 Rhagoriaeth (L2RH), Lefel 2 Teilyngdod (L2T), Lefel 2 Llwyddiant (L2LL), Lefel 1 Teilyngdod (L1T), Lefel 1 Llwyddiant (L1LL).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 2 | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| Uned 3 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | Uchafswm | L2RH* | L2RH | L2T | L2LL | L1T | L1LL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 300 | 270 | 243 | 210 | 180 | 150 | 120 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad a asesir yn allanol (wedi'i farcio gan CBAC) ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob asesiad wedi'i farcio gan y ganolfan unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Nid ydynt yn cael gwella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael '0' marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw un o'r asesiadau, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru am asesiad uned allanol (wedi'i farcio gan CBAC) am y pedwerydd tro neu asesiad mewnol (wedi'i farcio gan y ganolfan) am y trydydd tro, yna mae'n rhaid ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailwneud cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar bob asesiad wedi'i farcio gan CBAC a hyd at ddau gynnig ar bob asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorfforі elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.1.5, 1.2.2, 1.2.3, 1.2.4, 1.2.5, 1.2.6, 1.2.7, 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | 3.1, 3.2, 3.3 |
| Cynaliadwyedd | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.1.5, 1.2.2, 1.2.3, 1.2.4, 1.2.5, 1.2.6 | 2.1.1, 2.1.3, 2.1.4, 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | 3.1, 3.3 |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.2 | - |
| Addysg Hawliau Dynol | 1.3.1 | 2.3.1, 2.3.3 | - |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | 1.3.1, 1.3.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.4 | 3.1, 3.2 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.2, 3.4 |
| Darllen | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.2 |
| Siarad | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.2, 3.4 |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.4 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | 1.2.3, 1.2.4, | 2.3.1, 2.3.2 | 3.1, 3.3 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.2.3, 1.2.4 | 2.3.1, 2.3.2 | 3.1, 3.3 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | 1.1.2, 1.1.3, 1.2.4 | 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | 3.1, 3.3 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | 1.2.3 | 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1,2.3.2, 2.3.3 | - |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | 1.1.2 | 2.2.1, 2.2.2, 2.3.3 | - |
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.1, 1.2, 1.3 | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchu | 1.1, 1.2, 1.3, | 2.1, 2.2, 2.3 | 3.1, 3.3, 3.4 |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.1.2, 1.1.3, 1.1.5, 1.2.2, 1.2.3, 1.2.4, 1.2.5, 1.2.7, 1.3.1, 1.3.2 | 2.2.1, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2 | - |
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | 1.1.5, 1.2.2, 1.2.4, 1.2.6 | 2.1.3, 2.1.4, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1 | 3.1, 3.3 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.1.5, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.2.4, 1.2.5, 1.2.6 | 2.1.3, 2.1.4, 2.2.2, 2.2.3, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3 | 3.1, 3.3, 3.4 |
| Cynllunio a Threfnu | - | 2.3.2 | 3.1, 3.2 |
| Effeithiolrwydd Personol | 1.3.2 | 2.3.3 | 3.2, 3.4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad B: Gofynion adnoddau

Noder nad yw gofynion Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wedi'u nodi – bydd angen dilyn rheoliadau'r ganolfan ar gyfer pob gweithgaredd crefft a gyflawnir.

| Crefft | Gofynion adnoddau |
|---|---|
| Gwaith brics | • Digon o le gwag dan do neu yn yr awyr agored gyda sail briodol ar gyfer cwblhau'r arddangosiad sgiliau.<br>• Mae angen offer llaw safonol gwaith brics fel y bo'n briodol argyfer gweithgareddau crefft gwaith brics wedi'u cynllunio. Byddai hyn yn cynnwys bwced, brwsh, cŷn bras, morthwylion, hawg, llinell, tâp mesur, lefel wirod a thryweli.<br>• Deunydd gan gynnwys brics a morter ar gyfer cwblhau'r gweithgaredd crefft.<br>• Gellir defnyddio eitemau ychwanegol, er enghraifft deunyddiau capio, lle bo'r rhain ar gael i ganolfannau. |
| Trydanol | • Gall ystafell ddosbarth 'arferol' fod yn addas ar gyfer yr arddangosiad sgiliau.<br>• Gall arddangosiadau ddefnyddio byrddau ar gyfer creu cylchedau.<br>• Mae'r offer llaw safonol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd crefft trydanol i'w gyflawni yn debygol o gynnwys gefeiliau, tyrnsgriw a stripiwr gwifrau.<br>• Dylai cydrannau trydanol fel goleuadau, ffitiadau goleuo a switshys fod ar gael ar gyfer cwblhau'r gweithgaredd crefft.<br>• Gall yr athro/athrawes gwblhau'r profion cylched o edrych arno; does dim angen i'r gylched fod yn 'fyw' byth.<br>• Gall canolfannau ddefnyddio 'systemau foltedd isel' os yw'r rhain ar gael. |
| Adeiladu treftadaeth | • Mae hwn yn faes eang iawn ac o ganlyniad bydd unrhyw adnoddau'n rhai penodol iawn i'r gweithgaredd crefft a gyflawnir.<br>• Mae angen digon o le gwag dan do neu awyr agored ar gyfer rhai sgiliau megis codi wal cerrig sychion a digon o gerrig i gwblhau'r gweithgaredd crefft gofynnol.<br>• Gellir cwblhau sgiliau eraill, er enghraifft gwydr lliw (sydd fel arfer yn cael ei greu gan ddefnyddio plwm hunanadlynol a phaent gwydr) yn ddigon llwyddiannus mewn ystafell ddosbarth arferol. |
| Paentio ac addurno | • Mae'n gwbl briodol defnyddio 'baeau' lle mae adnodd o'r fath ar gael.<br>• Gellir defnyddio ystafell ddosbarth 'arferol', gan ddefnyddio byrddau ar gyfer yr arddangosiad sgiliau.<br>• Gall fod angen byrddau papuro lle dewisir gweithgaredd crefft o'r fath.<br>• Bydd angen i ddeunyddiau fel paent emwlsiwn, paent sglein, gorffeniadau eraill (megis farnais), papur wal, pâst a thâp papur wal fod ar gael i ddysgwyr, gan ddibynnu ar y gweithgaredd crefft. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Crefft | Gofynion adnoddau |
|---|---|
| | • Mae angen offer llaw addurno safonol megis brwshys paent, rholeri, siswrn papur wal gan ddibynnu ar y gweithgaredd crefft a gyflawnir. |
| Plastro | • Gellir defnyddio ystafell ddosbarth 'arferol', gan ddefnyddio byrddau ar gyfer yr arddangosiad sgiliau.<br>• Mae'n debygol y bydd angen offer llaw safonol gan gynnwys hawg, lefel wirod, trywel, ymyl syth a fflôt.<br>• Y prif ddeunydd y bydd ei angen yw plastr fel y nodir yn y gweithgaredd crefft ac mae'n debygol o fod yn sment, gypswm neu'n galch. |
| Gwaith plymio | • Gall ystafell ddosbarth arferol fod yn addas ar gyfer y sgìl hwn; ond gallai lleoliad mwy pwrpasol fod yn ddelfrydol gan ddibynnu ar y gweithgaredd crefft a gyflawnir.<br>• Gall dysgwyr arddangos sgiliau plymio gan ddefnyddio dulliau gwthffit, uniadau cywasgol neu uniadau wedi'u sodro (neu gyfuniad). Gellir defnyddio peipiau copr neu blastig.<br>• Bydd angen offer llaw a deunyddiau plymio safonol yn unol â'r gweithgaredd crefft a gyflawnir. |
| Gwaith ar y to | • Ni ragwelir y bydd unrhyw arddangosiad o waith ar y to yn digwydd ar y to ei hun ac ar uchder. Gall canolfannau ddefnyddio gweithdy a chynhyrchu fersiynau wrth raddfa lai o faint (nid modelau) o drychiadau to fel y nodir yn y gweithgaredd crefft a ddewisir.<br>• Mae angen offer llaw toi safonol ar gyfer arddangos y sgìl hwn. Gan ddibynnu ar y math o weithgaredd crefft a osodir, gall deunyddiau gynnwys ffelt toi, teils to llechi, estyll a chyplau pren. |
| Teilsio | • Gellir defnyddio ystafell ddosbarth 'arferol' ar gyfer yr arddangosiad sgiliau.<br>• Gall arddangosiadau ddefnyddio byrddau ar gyfer teilsio'r llawr a'r waliau.<br>• Mae angen offer llaw teilsio safonol gan gynnwys tryweli a lledaenwyr, torrwyr teils, niper a fflôt growt.<br>• Mae angen teils wal neu lawr. Gall canolfannau ddefnyddio growt sy'n cyfateb neu'n gwrthgyferbynnu ynghyd â chydrannau fel trimiau ymylon gan ddibynnu ar y gweithgaredd crefft a osodir.<br>• Anogir canolfannau i ddefnyddio calcio adeiladwr yn lle adlyn er mwyn hwyluso ailddefnyddio teils. |
| Gwaith coed | • Mae'n debygol y bydd angen gweithdy ar gyfer arddangos y sgil hwn.<br>• Mae hwn yn faes sgiliau eang iawn ac o ganlyniad bydd unrhyw adnoddau'n rhai penodol iawn i'r gweithgaredd crefft a ddewisir. Mae offer llaw safonol yn cynnwys cynion, llawlif, morthwyl a lefel wirod. Gellir defnyddio offer pŵer yn amodol ar bolisiau iechyd a diogelwch y ganolfan.<br>• Mae deunyddiau safonol yn cynnwys adlyn, hoelion, sgriwiau, mathau amrywiol o bren a byrddau pren. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.